



CYNGOR LLYFRAU CYMRU
WELSH BOOKS COUNCIL

Cynllun Gweithredol 2018/19



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

CYNNWYS

	Tud
1 Rhagair	3
2 Amcanion a Swyddogaethau Craidd y Cyngor Llyfrau	5
3 Amcanion Llywodraeth Cymru	6
4 Gweithio mewn Partneriaeth	7
5 Prif-ffrydio	10
6 Rheoli Risg	11
7 Ymchwil a Gwerthuso	12
8 Rhaglen Waith y Cyngor yn 2018/19	13
9 Pa adnoddau fydd ar gael	19
10 Targedau allweddol	21
11 ATODIADAU	
1 Cyllideb 2018/19	24
2 Dadansoddiad o'r Costau 2018/19	25
3 Grantiau Cyhoeddi 2018/19	26

1 Rhagair

Pleser o'r mwyaf i ni ym mis Tachwedd 2017 oedd cyhoeddi adroddiad Dr Siwan Rosser ar y ddarpariaeth o Lyfrau Cymraeg i Blant, a chawsom ein plesio'n fawr gan y derbynriad a roddwyd iddo gan randdeiliaid allweddol yn y diwydiant; cafodd yr adroddiad groeso cynnes gan gyhoeddwy, llyfrwerthwyr, awduron a darllenwyr fel ei gilydd. I ni, mae'r ddogfen graff hon yn darparu rhaglen wych o weithgaredd: mae rhai o'r argymhellion eisoes wedi cael eu gweithredu, bydd ar sawl un ohonynt angen ymyriadau mwy strategol yn y tymor hir, tra bydd eraill yn dibynnu ar argaeledd ffynhonnell ychwanegol o gymorth ariannol, nid lleiaf yng nghyd-destun darluniau gwreiddiol a dylunio, sydd bob amser yn feysydd hynod o gostus i gyhoeddwy.

Gan weithio mewn cydweithrediad ag Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru, a'r Reading Agency, bydd Cyngor Llyfrau Cymru'n gyfrifol am ddarparu llyfrau Cymraeg ar gyfer y cynllun Darllen yn Well; trefnir i gyhoeddi dros 40 o lyfrau a fydd yn sicrhau bod teitlau hunangymorth ym meysydd Dementia ac Iechyd Meddwl Oedolion ar gael yn yr iaith Gymraeg am y tro cyntaf erioed. Gobeithir mai un o ddeilliannau'r cynllun hwn fydd i ysbrydoli awduron newydd i ysgrifennu yn y meysydd hyn, gan ychwanegu lleisiau Cymreig newydd a dilys at y casgliad o lyfrau sydd ar gael. Mae'r chwistrelliad ariannol sylweddol hwn (£380k dros ddwy flynedd) yn ffynhonnell ychwanegol werthfawr iawn i'r diwydiant yn erbyn cefnlen o ariannu digyfnawid yn wyneb costau cynyddol, yn enwedig o ran cynhyrchu llyfrau o ganlyniad i wendid y bunt yn dilyn Brexit.

Lansiwyd Amdani, cyfres newydd o lyfrau, yn Eisteddfod yr Urdd Brycheiniog a Maesyfed: cafodd y gyfres hon ei dyfeisio a'i datblygu mewn cydweithrediad â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, ac am y tro cyntaf mae'n darparu deunydd darllen hamdden ar bob lefel i rai sy'n dysgu Cymraeg, gan gydnabod llwybrau dysgu trwy deilwra'r arddull a'r eirfa ar wahanol lefelau. Caiff y llyfrau eu hyrwyddo drwy gyfrwng cyrsiau'r Ganolfan, ac mae'r arwyddion cynnar yn dangos bod y gwerthiant yn dda. Mae'r gyfres hefyd wedi darparu model newydd o gydweithrediad rhwng cyhoeddwr, gyda phedwar cyhoeddwr yn rhan o'r cynllun ac yn marchnata'r gyfres yn ei chyfarwydd ar draws eu rhaglenni hwy eu hunain.

Bydd y ddwy drwydded i gylchgronau'n cael eu rhoi allan i dendr eleni, ac yn wyneb y diddordeb brwd a ddangoswyd hyd yma ymddengys y bydd hon yn flwyddyn arbennig o gystadleuol, gyda nifer o gynlluniau newydd ac addawol yn dod i'r fei.

Bydd yr ymchwil ar effaith economaidd y diwydiant llyfrau yng Nghymru, a wnaed ar ein rhan gan yr Athro Max Munday, Prifysgol Caerdydd, yn cael ei gyhoeddi yn haf 2018.

Cawsom wahoddiad i fod y prif bartner cyflenwi ar gyfer Diwrnod Cenedlaethol Barddoniaeth (a gynhelir ar 4 Hydref), ac rydym yn cydweithio'n agos â Sefydliad Jerwood i sicrhau y caiff y cynllun ei ddarparu'n llwyddiannus yn y ddwy iaith. Rydym wedi sicrhau cefnogaeth Trenau Arriva Cymru, a fydd yn hyrwyddo barddoniaeth ar draws eu rhwydwaith ac mewn rhai gorsafoddd. Byddwn hefyd yn parhau i gydweithio wrth ddatlu'r thema am eleni, sef Blwyddyn y Môr.

Byddwn yn adeiladu ar y cydweithrediad hynod lwyddiannus a gafwyd gyda gwahanol bartneriaid i sicrhau presenoldeb cenedlaethol i Gymru yn Ffair Lyfrau Llundain 2018, ac rydym yn hynod ddiolchgar i'r Gweinidog am ei gefnogaeth yn mynychu'r digwyddiad ynghyd â nifer o gyfarfodydd. Bydd y grŵp rhanddeiliaid yn cyflwyno cynnig busnes ffurfiol erbyn haf 2018, yn y gobaith o sicrhau ariannu tymor hir, yn debyg i'r trefniant a geir mewn gwledydd Ewropeaidd eraill.

Mae'r ymarferiad cwmpasu a gafwyd yng nghyd-destun y systemau dosbarthu ac ariannol newydd ar gyfer y Ganolfan Ddosbarthu bellach wedi dod i ben, a'r bwriad yw cyflwyno cais am grant cyfalaf i Lywodraeth Cymru yn y dyfodol agos.

Rydym yn parhau i ymgysylltu â thargedau addysgol allweddol trwy ddarparu deunyddiau i gyfeirio ysgolion at destunau allweddol o blaid siarter yr iaith Gymraeg. Un o brif dargedau'r Adran Llyfrau Plant yw ymgysylltiad dyfnach, wedi'i dargedu'n benodol, ag ysgolion a llyfrgelloedd trwy gyfrwng digwyddiadau; gyda hynny mewn golwg rydym, am yr ail dro, wedi sicrhau grant bychan (£15k) gan yr Is-Adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd (MALD) i weinyddu'r taliadau i lyfrgelloedd yng nghyd-destun Sialens Ddarllen yr Haf.

Roeddem yn cytuno â rhai o brif argymhellion yr Adolygiad ar Gyhoeddi a Llenyddiaeth, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, a phenderfynwyd creu rôl newydd – Pennaeth Busnes a Chyllid – i gryfhau elfen fusnes ein sefydliad. Mewn ymateb i'r pwyntiau a godwyd ynghylch arbenigedd yn y meysydd digidol a chysylltiadau cyhoeddus, rydym yn bwriadu creu rôl newydd, sef Rheolwr Cysylltiadau Cyhoeddus a Chynnwys Digidol, gyda'r bwriad o agor swyddfa fechan yng Nghaerdydd, ynghyd ag edrych ar y posibilrwydd o bresenoldeb yng Nghaerfyrddin, gan roi i ni, fel corff cenedlaethol, y presenoldeb daearyddol priodol.

Mae cyngor a chymorth ym maes Adnoddau Dynol, yn ogystal â rheoli'r gyflogres, wedi cael eu rhoi allan i Gyngor Sir Ceredigion, gyda'r bwriad o ddefnyddio'u gwasanaethau ymhellach o ran gweinyddu ein cynllun pensiwn, cyngor Iechyd a Diogelwch, ac yn y blaen.

O ganlyniad i'r buddsoddiad sylweddol a wnaed trwy gyfrwng grantiau cyfalaf dros y tair blynedd ddiwethaf, mae'r Ganolfan Ddosbarthu wedi llwyddo i wneud arbedion ariannol sylweddol, sydd yn newyddion arbennig o dda yn yr hinsawdd heriol sydd ohoni ym myd busnes y dyddiau hyn.

2 Amcanion a Swyddogaethau Craidd y Cyngor Llyfrau

Paratowyd y Cynllun Gweithredol hwn yn unol â phrif amcanion y Cyngor fel y nodir hwy yn y Cyfansoddiad.

Amcanion y Cyngor yn ôl ei Gyfansoddiad yw:

hybu, cefnogi a datblygu gwerthfawrogiad a diddordeb y cyhoedd mewn llenyddiaeth . . .
[trwy]

- a) gefnogi a chynorthwyo awduron ac addaswyr drwy roi grantiau a thrwy ddulliau eraill;
- b) cefnogi, hybu a chynorthwyo cynhyrchu a dosbarthu llyfrau a deunydd llenyddol ac artistig arall, ym mha ffurf bynnag y'u cofnodwyd (boed trwy ddulliau sy'n hysbys neu trwy ddulliau sydd hyd yn hyn yn anhysbys), yn Gymraeg neu'n ymwneud â Chymru;
- c) trefnu a chynnal arddangosfeydd o'r cyfryw lyfrau a deunydd arall;
- ch) cefnogi a hybu cyhoeddi'r cyfryw lyfrau a deunydd arall yng Nghymru.

Swyddogaethau Craidd

Mae llawer o waith y Cyngor yn ymwneud â darparu gwasanaethau sylfaenol i'r fasnach gyhoeddi ac, yn anochel felly, nid cynlluniau tymor-byr mohonynt. Rhestrir isod y swyddogaethau craidd sy'n gwbl hanfodol i sicrhau bod y Cyngor yn medru cyflawni ei waith yn unol â'r Cyfansoddiad.

- 1 Hybu'r diwydiant cyhoeddi yng Nghymru yn ei holl agweddau trwy ddarparu rhychwant o wasanaethau a thrwy gyd-gysylltu buddiannau awduron, cyhoeddwyr, llyfrwerthwyr a llyfrgelloedd a'r darllenwyr.
- 2 Dosbarthu grantiau i gynorthwyo cyhoeddi deunydd o ansawdd uchel yn y Gymraeg a'r Saesneg, gan sicrhau bod y cynnyrch ar gael yn eang.
- 3 Cynorthwyo a chefnogi awduron trwy ddarparu gwasanaethau a thrwy gynnig grantiau/comisiynau gaiff eu sianelu trwy'r cyhoeddwyr.
- 4 Hybu diddordeb mewn llyfrau Cymraeg a llyfrau Saesneg o Gymru, ynghyd â deunydd cyffelyb arall, trwy ddarparu gwybodaeth a thrwy raglen lawn o weithgarwch.

Cefnogir y swyddogaethau craidd hyn gan:

- i) Strwythurau rheoli addas
- ii) Rhaglenni hyfforddiant
- iii) Rheolaeth ariannol effeithiol

3 Amcanion Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru'n ariannu'r Cyngor Llyfrau i'w alluogi i gyflawni ei hamcanion polisi strategol yn y maes cyhoeddi; mae'r Cynllun Gweithredol hwn yn manylu ar raglen waith y Cyngor Llyfrau, sy'n unol â'r amcanion hynny.

Mae'r Cynllun Gweithredol hefyd yn cyfrannu at weledigaeth ehangach Llywodraeth Cymru – gweledigaeth sy'n cynnwys ymrwymiad i sicrhau cenedl gadarn a hyderus, cymunedau byw a llewyrchus, yn ogystal â chymdeithas deg a chyfiawn.

Fel a nodir yn y Cynllun Strategaeth pum-mllynedd 'Edrych Ymlaen', mae'r Cyngor yn cyfrannu at y meysydd canlynol:

- Cyflwyno diwylliant a threftadaeth Cymru drwy ystod eang o ddeunydd darllen amrywiol sy'n cyflwyno hanes Cymru a'i phobol
- Hybu a hyrwyddo'r Gymraeg drwy ei chyflwyno fel iaith fyw a pherthnasol
- Hybu llythrennedd a darllen fel sgiliau hanfodol bywyd
- Cyfrannu at raglen trechu tlodi ac amddifadedd drwy sicrhau deunydd darllen amrywiol a chynhwysol
- Cyfrannu at economi Cymru drwy gefnogi diwydiant cynhenid a'i gyrrhaeddiad ledled Cymru
- Cyfannu diwylliannau Cymru drwy gefnogaeth a gwasanaethau ar gyfer y ddwy iaith
- Cefnogi'r sector addysg drwy ddeunydd darllen atodol i'r deunyddiau addysgol a noddir gan y Llywodraeth
- Hybu Cymru dramor drwy ei llenyddiaeth gyfoethog a bri ei hawduron
- Cyfrannu at y disgwrs cenedlaethol drwy gefnogaeth i gylchgronau materion cyfoes a llenyddol yn ogystal â deunydd academaidd
- Cefnogi deunydd digidol a hybu arloesedd yn y maes.

Fel rhan o'i rôl ganolog yn hyrwyddo'r diwydiant cyhoeddi yng Nghymru, mae'r Cyngor Llyfrau'n darparu ystod o wasanaethau ar gyfer holl sectorau'r diwydiant. Ar yr un pryd, rhoddir cryn bwyslais ar wasanaethu'r cyhoedd yn uniongyrchol trwy ddarparu gwybodaeth am lyfrau o Gymru yn y ddwy iaith, a thrwy hwyluso'r broses o'u prynu trwy siopau llyfrau ac ar-lein. Yn unol â Chynllun Iaith y Cyngor, gall y cyhoedd ddewis derbyn gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg.

4 Gweithio mewn Partneriaeth

Bydd y Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth ag ystod eang o gyrff gan gynnwys, yn naturiol, prif bartneriaid y diwydiant cyhoeddi, sef y cyhoeddwr a'r llyfrwerthwyr.

Mae gan y Cyngor Llyfrau hefyd gysylltiadau agos iawn â'r awdurdodau lleol ledled Cymru, a bydd Swyddogion Ysgolion y Cyngor yn ymweld yn rheolaidd ag ysgolion a llyfrgelloedd. Bydd y Cyngor hefyd yn parhau i gydweithio'n agos â MALD, ac â nifer o sefydliadau ym myd addysg.

Bydd y Cyngor yn parhau â'r drefn o gynnal cyfarfodydd gyda Llyfrgell Genedlaethol Cymru a Llenyddiaeth Cymru i rannu gwybodaeth a thrafod cyfleoedd i gydweithio. Mae gan y Cyngor hefyd gysylltiad agos â Chymdeithas Prif Lyfrgellwyr Cymru.

Mae'r Strategaeth Tlodi Plant yn ymrwymo'r Cyngor i roi sylw penodol i'r maes pwysig hwn, ac fe gyflwynir adroddiad cynnydd blynyddol i sylw Llywodraeth Cymru. Yn ogystal â sicrhau deunydd darllen ar gyfer plant o gefndiroedd amrywiol, mae'r Cyngor hefyd yn cydweithio â'r awdurdodau addysg a'r awdurdodau llyfrgell i gefnogi ardaloedd difreintiedig.

Partner	Gweithredu yn 2018/19
Llywodraeth Cymru	<p><u>Cyffredinol</u></p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyfnewid gwybodaeth a phrofiad yng nghyswllt cynlluniau grantiau a chomisiynu llyfrau <p><u>Adran Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus</u> <u>Yr Is-adran Cwricwlwm ac Asesu</u></p> <ul style="list-style-type: none"> • Cydlynu gweithgarwch Diwrnod y Llyfr a'r ymgyrchoedd hyrwyddo darllen fel rhan o Raglen Llythrennedd Genedlaethol Llywodraeth Cymru • Cydweithio ar gynllun Stori Sydyn/Quick Reads fel rhan o strategaeth Sgiliau Sylfaenol • Cyfrannu at y Grŵp Llywio ar gyfer Adnoddau newydd i'r cwricwlwm newydd ac annog gweithio mewn partneriaethau o fewn y sector cyhoeddi <p><u>Is-adran y Gymraeg</u></p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyfrannu at y Bwrdd Technoleg Iaith • Cydweithio â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i gefnogi cyhoeddi'r gyfres Amdani ar gyfer dysgwyr ac i nodi unrhyw fylchau eraill o ran adnoddau • Cyfrannu at Strategaeth Iaith y Llywodraeth a'r targed o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 <p><u>Adran Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol</u> <u>Yr Is-adran Datblygu Twristiaeth a Phrif Ddigwyddiadau</u></p> <ul style="list-style-type: none"> • Comisiynu a hyrwyddo llyfrau fel rhan o gynllun blynyddoedd thematig Llywodraeth Cymru <p><u>MALD: Yr Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd</u></p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynnal a hyrwyddo gwefan gwales/llyfrgell • Cydweithio ar gynlluniau datblygu darllenyddwyr • Cydweithio i ddatblygu gwefan gwales/llyfrgell at ddefnydd y llyfrgelloedd • Gweinyddu grant Sialens Ddarllen yr Haf i'r Llyfrgelloedd <p><u>Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol</u></p> <ul style="list-style-type: none"> • Gweinyddu Blwyddyn 1 o'r Cynllun Darllen yn Well er mwyn cyhoeddi llyfrau ar Dementia mewn cydweithrediad â'r Asiantaeth Ddarllen • Cydweithio ag Iechyd Cyhoeddus Cymru i sicrhau bod y gymuned yn ymgysylltu â'r cynllun Darllen yn Well • Hybu'r cynllun yn rhagweithio mewn llyfrgelloedd a siopau llyfrau

Cyngor y Celfyddydau / Llenyddiaeth Cymru	<ul style="list-style-type: none"> • Cydweithio ar gynllun Gwobrau Llyfr y Flwyddyn • Llenyddiaeth Cymru i gyfrannu at weithgarwch Diwrnod y Llyfr • Cyfrannu at brosiect Ffrindiau Darllen • Cyfrannu at ddatblygu strategaeth ryngwladol ar gyfer Llenyddiaeth o Gymru • Cydweithio ar stonidin Ffair Lyfrau Llundain 2018
Yr Asiantaeth Ddarllen (The Reading Agency)	<ul style="list-style-type: none"> • Cyflwyno'r cynllun Darllen yn Well yn y Gymraeg (2018/19–2019/20) • Cyflwyno Sialens Ddarllen yr Haf
Jerwood Foundation / Diwrnod Cenedlaethol Barddoniaeth	<ul style="list-style-type: none"> • Cyflwyno Diwrnod Cenedlaethol Barddoniaeth yng Nghymru yn 2018
BookTrust Cymru	<ul style="list-style-type: none"> • Cydweithio ar gynllun hyrwyddo darllen, archwilio cyfleoedd i gydweithio ymhellach a chyfnewid gwybodaeth ar gynlluniau perthnasol • Arddangos yng nghynadleddau BookTrust Cymru
Cyfnewidfa Lên Cymru	<ul style="list-style-type: none"> • Cyfnewid gwybodaeth ar gynlluniau perthnasol • Cydweithio ar stonidin Ffair Lyfrau Llundain 2018
Llyfrgelloedd	<ul style="list-style-type: none"> • Cyfnewid gwybodaeth ar gynlluniau penodol gyda CILIP Cymru • Arddangos yng nghynhadledd flynyddol CILIP • Gweinyddu Gwobrau Tir na n-Og a noddir yn rhannol gan CILIP Cymru (Cymynrodd Kathleen Cooks) • Cydweithio â Chymdeithas Prif Lyfrgellwyr Cymru ar gynlluniau hyrwyddo darllen
Llyfrgell Genedlaethol Cymru	<ul style="list-style-type: none"> • Cynllun digido cylchgronau • Cydweithio ar gyfnewid gwybodaeth rhwng catalog y Llyfrgell a chronfa ddata gwales
Urdd Gobaith Cymru	<ul style="list-style-type: none"> • Nifer o gynlluniau, yn cynnwys hyrwyddo gwobrau Tir na n-Og a chynllun Bardd Plant Cymru
Y Sector Gwirfoddol	<ul style="list-style-type: none"> • Sicrhau cefnogaeth mudiadau gwirfoddol ac elusennol i weithgareddau hyrwyddo darllen
Wales TUC Cymru	<ul style="list-style-type: none"> • Adeiladu ar y berthynas a sefydlwyd yn ystod y Flwyddyn Darllen Genedlaethol, gyda golwg ar hyrwyddo llyfrau a darllen yn y gweithle
S4C/BBC	<ul style="list-style-type: none"> • Cynllun Bardd Plant Cymru • Adnabod cyfleoedd i hyrwyddo darllen a llyfrau drwy gyfrwng rhaglenni penodol
CBAC	<ul style="list-style-type: none"> • Rhannu gwybodaeth ym maes comisiynu deunydd darllen addysgol
Trenau Arriva Cymru	<ul style="list-style-type: none"> • Cynllun Chwedlau ar y Cletrau, Diwrnod Cenedlaethol Barddoniaeth
CNLC eraill	<ul style="list-style-type: none"> • Cydweithio ar hyfforddiant staff a materion Adnoddau Dynol

5 Prif-ffrydio

Bydd y Cyngor yn ymdrechu i brif-ffrydio nifer o egwyddorion sylfaenol a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru.

Egwyddor	Gweithredu yn 2018/19
Cydraddoldeb	Cydymffurfio â pholisi cydraddoldeb y Cyngor. Sicrhau mynediad cyfartal i'r gwasanaethau a gynigir gan y Cyngor. Dilyn proses dryloyw wrth benodi aelodau i banelau'r Cyngor, yn cynnwys hysbysebu'n gyhoeddus. Cydymffurfio â Chynllun Iaith y Cyngor. Trwy'r cynllun grantiau, cefnogi ystod eang o lyfrau sy'n adlewyrchu amrywiol ddiddordebau'r darllenwyr.
Datblygu cynaliadwy	Cefnogi isadeiledd y diwydiant cyhoeddi, er budd economi gynaliadwy Cymru. Cynnal a chefnogi hyfforddiant o fewn y diwydiant cyhoeddi i ddatblygu sgiliau. Archwilio cyfleoedd i arbed ynni, yn enwedig o safbwynt tanwydd, a monitro ailgylchu deunyddiau swyddfa. Monitro'r cynllun rheoli gwastraff o ran ailgylchu deunyddiau swyddfa, a chydymffurfio ag argymhellion yr Awdit Gwastraff Peryglus.
Cyfiawnder cymdeithasol	Parhau i gefnogi a hyrwyddo deunydd darllen addas ar gyfer darllenwyr anfoddog mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru. Cefnogi ystod eang o ddeunydd darllen yn y Gymraeg a'r Saesneg. Cefnogi gweithgarwch hybu llythrennedd a sgiliau darllen.
Anabledd	Cydymffurfio â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010. Datblygu mynediad ar-lein at wybodaeth am lyfrau o Gymru a gwasanaethau'r Cyngor. Hyrwyddo deunydd digidol a llyfrau llafar. Cynorthwyo llyfrgelloedd i sicrhau llif cyson o lyfrau print-bras a gynhyrchwyd i safon uchel.
Hybu'r Iaith Gymraeg	Cydymffurfio â gofynion Cynllun Iaith y Cyngor. Cefnogi staff sy'n dymuno dysgu neu wella eu Cymraeg.

- Cyhoeddusrwydd/Brandio

Bydd y Cyngor yn cydymffurfio'n llawn â gofynion Llywodraeth Cymru ar fater brandio, ac yn cydnabod nawdd Llywodraeth Cymru mewn digwyddiadau ac ar gyhoeddiadau, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Bydd staff yn parhau i gydweithio'n agos â swyddogion Llywodraeth Cymru er mwyn datblygu dull cydlynol ac integredig o ymdrin â gwaith marchnata a chyfathrebu.

6 Rheoli Risg

Mae'r Cyngor yn ymwybodol o'r ffaith bod creadigrwydd cynhenid y diwydiant cyhoeddi yn cynnwys elfen o risg – a bod hynny'n rhan greiddiol o'i natur ac yn angenrheidiol i'w fodolaeth. Mae cyfrifoldeb arnom hefyd fel sefydliad i ddeall, dadansoddi a rheoli'r risg honno orau y gallwn.

Cydnabyddir fod elfen o risg ynghlwm ag unrhyw weithgaredd creadigol, gan gynnwys y diwydiant cyhoeddi. Heb hynny, mae gwir bosibilrwydd y gallai'r diwydiant aros yn ei unfan gan fethu neu wrthod cyfleoedd datblygu blaengar. Mae'r Cyngor, drwy'r Panelau Grantiau Cyhoeddi, yn gyson yn mentro drwy roi cefnogaeth ac yn hyrwyddo cynnwys sy'n feiddgar ac yn heriol. Mae'r Cyngor hefyd yn awyddus i arbrofi gyda chynlluniau arloesol i farchnata llyfrau ac i hyrwyddo darllen – gan ystyried y posibilrwydd na fydd yr holl gynlluniau'n perfformioystal â'i gilydd.

Er gwaethaf yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, a'i heffaith ar werthiant a allai arwain at gefnogi deunydd darllen 'saff', mae'r Panelau Grantiau Cyhoeddi yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau i gefnogi ystod o ddeunydd darllen.

Fel y nodwyd uchod, mae cyfrifoldeb hefyd yn dod yn sgil mentro, ac mae'r Cyngor yn pwysu ar brofiad staff, aelodau panelau arbenigol a phartneriaid o fewn y diwydiant i reoli'r risg honno. Bydd y Panel Grantiau Cyhoeddi (Cymraeg a Saesneg) yn arolygu cynnyrch a pherfformiad y cyhoeddwr unigol drwy adroddiadau monitro a chyfarfodydd cloriannu, ac mae rhaglen hyfforddiant i gyhoeddwr yn fodd o'u cynorthwyo i adnabod a rheoli risg.

Bydd timau mewnol yr Adran Gwerthu a Marchnata/Y Ganolfan Ddosbarthu yn cyd-graffu ar ymgyrchoedd marchnata a thargedau gwerthiant/ariannol, gan adrodd yn uniongyrchol i'r Tîm Rheoli a'r Prif Swyddogion.

7 Ymchwil a Gwerthuso

Er mwyn i'r diwydiant cyhoeddi sicrhau'r gwerth gorau am arian, mae'n hanfodol fod gwaith ymchwil a gwerthusiad o gynlluniau'n cael eu cynnal yn gyson.

Yn ddiweddar, cyhoeddwyd adolygiad Dr Siwan Rosser ar y ddarpariaeth o Lyfrau Cymraeg i Blant, yn dilyn adroddiad cynharach, sef Adroddiad Prys Jones. Mae adroddiad Dr Rosser wedi cael derbyniad gwresog eisoes a bu'n ddefnyddiol dros ben i'r Adran Llyfrau Plant, y Panel Llyfrau Plant ac yn fwy penodol i'r Panel Grantiau Cyhoeddi. Mae'r adroddiad uchelgeisiol yn cynnwys nifer o dargedau, rhai wedi'u gweithredu eisoes, ac eraill ag angen gwaith cynllunio yn y tymor hir ar eu cyfer a/neu gyllid ychwanegol, tra bod angen trafod rhai eraill yn ehangach ymhlith yr holl randdeiliaid sy'n ymwneud â hyrwyddo'r Gymraeg ymhellach.

Mewn ymateb i un argymhelliad penodol mewn perthynas â rhieni di-Gymraeg sydd wedi dewis addysgu eu plant mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, comisiynwyd cwmni Beaufort i wneud gwaith ymchwil drwy gyfrwng grŵp ffocws rhieni, a bydd y canfyddiadau hynny hefyd yn cefnogi'r prosesau gwneud penderfyniadau yn y Panel Grantiau yn wyneb adroddiad Rosser.

Mae adroddiad ar ymchwil economaidd a'i heffaith ar y diwydiant llyfrau Cymraeg wedi'i gomisiynu gan yr Athro Max Munday o Brifysgol Caerdydd, a bwriedir cyhoeddi ei ganfyddiadau yn haf 2018.

Yn ddiweddar, bu'r Cyngor hefyd yn cynnal arolygon o feysydd arbennig, ac yn benodol felly ym maes cylchgronau yn y ddwy iaith. Bwydodd yr ymchwil ar gylchgronau Saesneg (Adroddiad Bianchi) i'r gwaith o lunio manyleb y tendr cylchgronau ar gyfer 2015–2019, gyda'r adroddiad ymchwil cyfatebol i faes cylchgronau Cymraeg (Adroddiad Green) yn berthnasol i'r drwydded ar gyfer y cyfnod 2016–2019. Bydd y trwyddedau ar gyfer cylchgronau yn y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu rhoi allan i dendr yn 2018, a bydd y ddau is-banel yn defnyddio'r ymchwil hwnnw fel eu cylch gorchwyl.

Edrychir ymlaen hefyd at dderbyn ymateb ffurfiol Llywodraeth Cymru i'r Arolwg Llenyddiaeth a Chyhoeddi a fydd yn sail i ddatblygiadau pellach yn y maes.

8 Rhaglen Cylch Gwaith y Cyngor yn 2018/19

Rhestrir isod nifer o gynlluniau a weithredir gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol 2018/19. Mae'r cynlluniau hyn i gyd yn unol ag amcanion y Cyngor mewn perthynas â hyrwyddo'r diwydiant cyhoeddi yng Nghymru.

1 GRANTIAU CYHOEDDI

Grantiau i ddeunydd Cymraeg

O ran cyhoeddi trwy gyfrwng y Gymraeg, nod prif gynlluniau grant y Cyngor yw gwella ansawdd llyfrau, a chynyddu'r amrywiaeth o lyfrau a chylchgronau a gyhoeddir, drwy noddi awduron, dylunwyr a chyhoeddwr o'r radd flaenaf i ysgrifennu, darlunio, dylunio a golygu llyfrau a chylchgronau Cymraeg. Bydd y Cyngor yn parhau i ddatblygu'r cynlluniau craidd hyn ac yn ceisio cynnal, cyn belled ag y bo hynny'n bosibl, y nifer o deitlau a gyhoeddir.

Yn ogystal â'r gwaith craidd hwn, yn ystod 2018/19 fe fydd y Cyngor yn blaenoriaethu'r canlynol:

- Cynllunio ar gyfer y dyfodol: ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2016/17 cyhoeddodd Gwasg Gomer eu bod yn ailstrwythuro'u cwmni er mwyn cryfhau ochr gyhoeddi'r busnes. O ganlyniad, gostyngodd cyfanswm y llyfrau a gyhoeddir ganddynt o 48 i 24. Golygodd hyn fod y Cyngor mewn sefyllfa i ystyried cyhoeddwr rhaglen newydd, i roi rhagor o lyfrau i rai eraill, ac i gynllunio cynnydd yn y grant i rai nad oedd wedi derbyn cynnydd ers nifer o flynyddoedd.
- Adroddiad Dr Siwan Rosser ar y Farchnad Llyfrau Plant: cyhoeddwyd yr adroddiad hwn ym mis Tachwedd 2017. Bydd llawer o waith yn cael ei wneud yn ystod 2018/19 i weithredu ar argymhellion yr adroddiad. Bydd hyn yn cynnwys ymchwil marchnad, hyfforddiant i'r cyhoeddwr, ac anogaeth i gynllunio'n strategol ar gyfer y maes, yn ogystal â chydweithrediad agos â'r Adran Llyfrau Plant a Hyrwyddo Darllen a fydd yn arwain ar lawer o'r gwaith.
- Cyhoeddi llyfrau i ddysgwyr: cododd cyfle yn sgil gostyngiad yn rhaglen gyhoeddi Gwasg Gomer, a chynnydd yn y grant o Lywodraeth Cymru, i sefydlu a datblygu partneriaeth gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Datblygwyd y cynllun yn ystod 2017/18 a bydd yn dwyn ffrwyth yn ystod 2018/19 pryd y cyhoeddir 20 o lyfrau ar gamau penodol sy'n cyfateb i'r cwricwlwm. Yn ogystal â'r bartneriaeth strategol rhwng y Cyngor a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, fe welodd y cynllun hwn y pedwar cyhoeddwr llwyddiannus yn cydweithredu'n agos am y tro cyntaf i wireddu nod cyffredin.
- Tendr Cylchgronau Cymraeg: bydd tendro am y gwaith cyhoeddi cylchgronau Cymraeg yn ystod 2018/19, a'r gobaith yw cynnal proses fydd yn ddeniadol i gyhoeddwr newydd yn ogystal â sicrhau dilyniant yn yr arlwy er mwyn cynnig darpariaeth amrywiol a safonol i ddarllenwyr Cymru.
- Blynyddoedd thematig: byddwn yn annog cyhoeddwr llyfrau a chylchgronau i roi sylw i'r themâu yn eu cylchgronau, i geisio am grantiau i gyhoeddi llyfrau sy'n cyd-fynd â'r themâu, a thrwy lacio'r canllawiau marchnata llyfrau i ganiatáu iddynt hyrwyddo llyfrau perthnasol o'u hôl-restr fel pecynnau neu mewn digwyddiadau perthnasol a drefnir gan gyrff eraill sy'n hyrwyddo'r themâu.
- Hyfforddiant: bydd cyfleoedd yn 2018/19 i gynnig hyfforddiant ariannol ar lefel uchel i bob un o'r prif gyhoeddwr, yn ogystal â pharhau i gynnig hyfforddiant proffesiynol a hyfforddiant mewn meysydd penodol sy'n deillio o'r gwaith ar lyfrau i ddysgwyr a phlant a phobl ifanc.

- Bydd y cynllun i gefnogi llyfrwerthwyr yn parhau, a bydd y Cyngor yn hyrwyddo a marchnata llyfrau'r grant cyhoeddi drwy dulliau generig o hyrwyddo yn ogystal â thrwy ddarparu grantiau penodol i gyhoeddwr hyrwyddo llyfrau newydd.
- Bydd y Cyngor yn cefnogi'r diwydiant yn ehangach drwy gynnal Warws Gwybodaeth (Y Fasnach Lyfrau Ar-lein) at ddefnydd y diwydiant, llyfrgelloedd a'r cyhoedd, a thrwy ddarparu cymorth tuag at weinyddiaeth Cwllwm Cyhoeddwr Cymru.

Grantiau i ddeunydd Saesneg

Mae cefnogaeth i gyhoeddiadau Saesneg o Gymru'n sicrhau ystod o ddeunyddiau bywiog sy'n adlewyrchu diwylliant neilltuol Cymru, a hynny yn wyneb cystadleuaeth ffyrnig o fewn y farchnad gyhoeddi Eingl-Americanaidd. Mae'r grantiau'n darparu ar gyfer darllenwyr yng Nghymru deitlau sy'n berthnasol iddynt hwy, ac sy'n cynrychioli diwylliant Cymru ar lefel ryngwladol. Wrth weinyddu'r grant, bydd y Cyngor yn:

- cefnogi isadeiledd trwy gyfrwng y Grant Swyddi a Gefnogir a'r Grant Refeniw, er mwyn cynnal cefnogaeth ariannol i swyddi yn y sector. Ymhellach, dyrennir grantiau marchnata fesul teitl er mwyn sicrhau bod llyfrau'n cyrraedd y darllenwyr, ac i roi cyfle i gyhoeddwr gynhyrchu incwm hollbwysig o'r gwerthiant.
- rhoi blaenoriaeth i ariannu teitlau newydd i oedolion a phlant, sy'n addas ar gyfer ystod eang o ddarllenwyr. Bydd hyn yn cynnwys cynnal dulliau o ariannu llyfrau poblogaidd drwy gyfrwng y cynllun Grantiau Blaendaliadau Awduron, a chynnal safon llyfrau llenyddol drwy'r Grant Refeniw a'r Grantiau Llyfrau Llenyddol Unigol.
- darparu cefnogaeth ar gyfer cylchgronau print a digidol sy'n cyfrannu at y diwylliant Saesneg yng Nghymru. Eleni, gwahoddir tendrau i ddarparu cyllid i ystod o gylchgronau a fydd yn darparu llwyfan hanfodol ar gyfer trafod, dadansoddi ac ysgrifennu o ansawdd da ar ystod eang o bynciau.
- sicrhau gwerth am arian trwy osod targedau gwerthiant dros 18 mis yn achos llyfrau a ariannwyd dan y cynlluniau Refeniw, Blaendaliadau Awduron a Marchnata, ac isafswm gwerthiant yn achos cylchgronau, gan fonitro gwerthiant teitlau print a digidol fel ei gilydd. Anogir rhestr gytbwys o lyfrau gan gyhoeddwr Refeniw, a monitro ansawdd a gwerth diwylliannol teitlau a ariennir gan grant.
- canolbwyntio ar ddatblygu'r sector, a hybu arfer da ymhlith cyhoeddwr sy'n derbyn grantiau. Cynigir cyfleoedd am hyfforddiant i gyhoeddwr llyfrau a chylchgronau, gyda'r bwriad o annog rhagoriaeth ac i sicrhau eu bod yn gwbl ymwybodol o'r datblygiadau diweddaraf o fewn y diwydiant. Eleni, bydd y rhain yn canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau busnes a rheoli ariannol.
- parhau i oruchwylio datblygiad cyfres Library of Wales, a hybu ymwybyddiaeth ohoni, mewn ymgynghoriad â Golygydd y Gyfres a'r cyhoeddwr wrth i'r gyfres gyrraedd ei hanner canfed teitl.
- gweithio ochr yn ochr â llyfrgellwyr i sicrhau bod llyfrgellwyr yn ymwybodol o deitlau newydd ym maes ysgrifennu Saesneg yng Nghymru.
- manteisio ar bob cyfle i greu partneriaethau ac i wneud cyfraniad diwylliannol a masnachol yng nghyd-destun cynllun blynyddoedd thematig llywodraeth Cymru.

2 GWERTHU, MARCHNATA A GWASANAETHAU GWYBODAETH

- Cynyddu gymaint â phosibl ar y gwerthiant i'r siopau llyfrau annibynnol, arbenigol.
- Cefnogi cwsmeriaid ar holl wefannau gwales: siopau llyfrau, llyfrgelloedd ac unigolion. Cyflwynwyd newidiadau i gwales/siop i'w wneud yn fwy hygyrch a chyfeillgar i'r defnyddiwr er mwyn, yn y pen draw, caniatáu mwy o fynediad i gyfrifon masnach personol.
- Hyrwyddo archebu electronig ar gyfer y siopau llyfrau.
- Parhau i gefnogi'r llyfrwerthwyr drwy'r Cynllun Ymestyn, a chydweithio â'r cyhoeddwr i drefnu lansiadau a sesiynau llofnodi.
- Gweinyddu cynllun disgownt ychwanegol ar gyfer y siopau llyfrau annibynnol, gyda'r bwriad o gynyddu gwerthiant.
- Sicrhau fod gan holl safleoedd Cadw, safleoedd Amgueddfa Cymru, safleoedd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a'r Canolfannau Gwybodaeth ystod eang o lyfrau o Gymru sy'n berthnasol ym mhob un o'u siopau/canolfannau.
- Parhau i hyrwyddo a gwerthu llyfrau o Gymru drwy Waterstones a WHSmith gan ganolbwyntio'n arbennig ar hwyluso'r trefniadau ar gyfer archebu a dosbarthu.
- Mynychu Ffeiriau Masnach perthnasol er mwyn sicrhau y gwneir pob ymdrech i gynyddu'r nifer o gyfleoedd i werthu drwy leoliadau megis orielau, siopau anrhegion ac atyniadau i dwristiaid.
- Hyrwyddo llwyfan bywiog Llenyddiaeth o Gymru mewn digwyddiadau y tu allan i Gymru, e.e. Ffair Lyfrau Llundain, Wythnos Cymru yn Llundain.
- Gweithio mewn cydweithrediad agos â chyhoeddwr Cymraeg a Saesneg sydd wedi'u lleoli yng Nghymru.
- Cynnig cefnogaeth i gyhoeddwr ar eu Data Llyfryddol, a gwella eu metadata.
- Mae'r Cynadleddau Gwerthu a gynhelir bob dwy flynedd bellach wedi'u hen sefydlu gyda'r Cyhoeddwr, ac mae rhannu gwybodaeth yn fewnol ac allanol mewn modd effeithlon yn parhau'n flaenoriaeth.
- Gwerthu a hyrwyddo llyfrau ar thema Y Môr fel rhan o bolisi hyrwyddo Llywodraeth Cymru, mewn partneriaeth â'r cyhoeddwr a'r fasnach lyfrau yng Nghymru.
- Parhau i gynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda chyfanwerthwyr a phrynwyr canolog yn y Deyrnas Gyfunol yn achos llyfrau penodol, er mwyn sicrhau bod y llyfrau'n cael y sylw mwyaf posibl y tu hwnt i Gymru.
- Sicrhau, drwy gydweithio â chwmni Gardners, bod e-lyfrau o Gymru, yn y ddwy iaith, ar gael trwy wefan gwales.
- Gweithio mewn cydweithrediad â phartneriaid llyfryddol, megis Nielsen, i sicrhau metadata llawn ar bob teitl.

- Cynyddu ein presenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol, creu deunyddiau hyrwyddo a hysbysebu i ddenu dilynwyr newydd ar lwyfannau megis Facebook, Twitter, Instagram ac YouTube.
- Gwneud defnydd o Google Analytics er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r defnydd a wneir gan ein cwsmeriaid o'n gwefan.
- Hyrwyddo'r Cynllun Tocynnau Llyfrau mewn cydweithrediad â siopau llyfrau yng Nghymru.
- Trefnu stondinau yn y ddwy eisteddfod genedlaethol a Sioe Amaethyddol Llanelwedd. Cydweithio'n agos â Gŵyl y Gelli i sicrhau bod detholiad o lyfrau o Gymru yn cael lle gweledol amlwg yn yr Ŵyl.
- Goruchwylio a datblygu ein hymgyrchoedd marchnata print yn y gwanwyn, yr haf a'r Nadolig (catalogau *Llyfrau'r Haf*, *Gwledd y Nadolig*, *Summer Reads* a *Festive Reads*), marchnata digidol a'r cyfryngau darlledu (hysbysebion teledu).
- Cyhoeddi 200 o adolygiadau ar gyfer gwefan gwales.com.
- Diweddarau ein gwefannau (llyfrau.cymru & yfasnachlyfrau.org.uk) yn rheolaidd.

3 HYRWYDDO LLYFRAU A DARLLEN

- Fel sylfaen i'r gwaith hyrwyddo eleni, bydd y Cyngor yn parhau i gynnal y rhaglen o weithgareddau i godi proffil a hyrwyddo llyfrau plant yn y ddwy iaith gan gynnwys trefnu'r cystadlaethau llyfrau – Darllen dros Gymru a BookSlam; cyflwyno gwobrau Tir na n-Og i wobrwyo'r cynnyrch gorau ym maes llyfrau plant yn y ddwy iaith, a hyrwyddo'r cynllun Bardd Plant Cymru. Bydd pwyslais yn parhau ar fonitro a datblygu'r cynlluniau i sicrhau gwerth am arian.
- Bydd ymgyrchoedd Teithiau Awdur y brand @LlyfrDaFabBooks yn parhau – gan gydweithio gydag awduron, cyhoeddwr, llyfrwerthwyr, ysgolion a llyfrgelloedd ledled Cymru. Sicrheir sylw i gyhoeddiadau, prosiectau neu newyddion sy'n berthnasol i faes llenyddiaeth plant a phobl ifanc yng Nghymru ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol @LlyfrDaFabBooks.
- Cydlynu prosiectau mewn perthynas â blynyddoedd thematig Llywodraeth Cymru – Y Môr (2018) a Darganfod (2019) – mewn partneriaeth â Threnau Arriva Cymru.
- Cynnal rhaglen o weithgareddau hybu darllen mewn perthynas â Rhaglen Llythrennedd Genedlaethol Llywodraeth Cymru. Bydd hyn yn cynnwys cydlynu gweithgarwch Diwrnod y Llyfr 2019 a chefnogi cynllun Sialens Ddarllen yr Haf mewn perthynas ag ysgolion a llyfrgelloedd. Caiff pwyslais ei roi ar dargedu a chyrraedd disgyblion o fewn ardaloedd difreintiedig ar draws Cymru.
- Trefnu ymweliadau gan Swyddogion Ysgolion y Cyngor ag ysgolion cynradd ac uwchradd, cynadleddau addysgol a llyfrgelloedd ledled Cymru. Yn ystod yr ymweliadau, bydd y Swyddogion yn arddangos a chyflwyno'r ddarpariaeth eang o ddeunyddiau sydd ar gael a'u perthnasedd i ofynion y Cwricwlwm.
- Cryfhau'r berthynas rhyngom ni a'r consortia rhanbarthol ac Adrannau Addysg Llywodraeth Cymru, gan greu adnoddau hyrwyddo i gefnogi ymgyrchoedd penodol (e.e. Siarter Iaith, Cymraeg Campus).

- Mae'r Cyngor yn llawn sylweddoli'r angen i dargedu darllenwyr anfoddog, boed yn blant neu'n oedolion. Bydd yn parhau i weithredu'r Strategaeth Tlodi Plant, a fydd yn gymorth i sicrhau deunydd pwrpasol ac yn pwysleisio pwysigrwydd llythrennedd a darllen fel sgîl hanfodol ac arf pwerus i fynd i'r afael ag effeithiau tlodi ymysg teuluoedd, plant a phobl ifanc. Bydd parhad y gyfres Stori Sydyn/Quick Reads ar gyfer pobl ifanc ac oedolion yn cyfrannu at y cynllun hwn.
- Cydweithio â phartneriaid megis The Reading Agency, BookTrust Cymru a chydlynwyr World Book Day UK, gan sicrhau dimensiwn Cymreig i'r cynlluniau a'r gweithgareddau.
- Yn sgîl cyhoeddi Adroddiad Dr Siwan Rosser – *Arolwg Llyfrau Plant a Phobl Ifanc: Adroddiad Terfynol* (2017) – i faes llenyddiaeth i blant a phobl ifanc yng Nghymru, rhoddir sylw penodol i nifer o'r argymhellion ac, yn benodol, cydweithio gyda phartneriaid megis yr Urdd a S4C i sbarduno syniadau, codi proffil llenyddiaeth i blant, a datblygu ffyrdd o rannu gwybodaeth am lyfrau ymhlith athrawon, darpar athrawon a rhieni.

4 GWASANAETHAU GOLYGU A DYLUNIO

- Cynnig gwasanaeth dylunio o'r safon uchaf i'r gweisg, a chydweithio gyda'r gweisg bychan i wella diwyg eu cyhoeddiadau.
- Cynnig gwasanaeth golygu copi a phrawfddarllen i'r gweisg, a chynnig cyngor ac arweiniad i'r golygyddion creadigol sy'n gweithio yn y tai cyhoeddi.
- Parhau i gynnig gwasanaeth golygu mewnol i holl adrannau'r Cyngor.
- Comisiynu 180 o adolygiadau o lyfrau Cymraeg a Saesneg ar gyfer gwefan gwales.com.

5 TECHNOLEG GWYBODAETH A CHYFATHREBU

- Cynnal cyfarfodydd chwarterol o'r Tîm Technegol mewnol.
- Adolygu Strategaeth Systemau Gwybodaeth y Cyngor gyda'r Tîm Technegol i osod blaenoriaethau a goruchwylio'r rhaglen waith.
- Parhau â'r rhaglen o ddiweddarau cyfrifiaduron y Cyngor, gyda'r bwriad o sicrhau gwasanaeth dibynadwy.
- Archwilio a datblygu dulliau o weithio'n electronig er mwyn arbed adnoddau a sicrhau gwerth am arian.

7 Y GANOLFAN DDOSBARTHU

- Ehangu'r defnydd o EDI i hwyluso cyfathrebu electronig â llyfrwerthwyr a chyfanwerthwyr.
- Parhau i feincnodi gwasanaethau'r Ganolfan yn fisol ac adrodd arnynt i'r Prif Swyddogion.
- Asesu manteision creu system bacio sy'n fodern ac yn addas ar gyfer y gwasanaeth dosbarthu.

- Cynnal arolwg o wasanaeth a chostau gwahanol gwmnïau dosbarthu i sicrhau gwerth am arian.
- Parhau i ddadansoddi ac arolygu costau rhedeg y Ganolfan, gan sicrhau bod gwasanaeth o'r safon uchaf yn cael ei gynnal i'r cyhoeddwyr a'r llyfrwerthwyr.

8 DATBLYGU STAFF

- Parhau i geisio codi safon arweinyddiaeth a rheolaeth y Cyngor, gan ddilyn yr arferion gorau o fewn y sector cyhoeddus yng Nghymru.
- Mewn ymateb i'r drefn gloriannu blynyddol, bydd y Cyngor yn parhau i adnabod cyfleoedd i hyfforddi a datblygu'r staff i'w helpu i ennill sgiliau hyblyg a throsglwyddadwy a fydd yn eu galluogi i ymateb i unrhyw gyfleoedd newydd.

9 GWEINYDDIAETH

- Parhau i archifo cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor drwy ddulliau electronig, gan sicrhau mynediad rhydd i'r cyhoedd.
- Archifo gwefannau'r Cyngor mewn perthynas â'r Llyfrgell Genedlaethol.

9 Pa adnoddau fydd ar gael

Dangosir isod y symiau a ddyrannwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2018/19.

	2018/19
Grant Craidd	£
Tuag at Adrannau Arbenigol	749,000
Costau Cyffredinol a Chostau Rhedeg	351,900
	<hr/> 1,100,900
 Grant Cyfalaf	 30,000
 Grantiau i'w dosbarthu	
Grantiau Cyhoeddi	2,548,100
	<hr/> 3,679,000 <hr/>

Mae'r tudalennau sy'n dilyn yn cynnwys amcangyfrifon manwl ar gyfer 2018/19.

Mae cyllid prosiect hefyd ar gael yn 2018/19 trwy Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru:

Cynlluniau Hyrwyddo Darllen	£140,000
-----------------------------	----------

Y mae modd cyflawni popeth sydd yn y Cynllun hwn, a hynny'n unol â dyraniad ariannol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018/19.

10 Targedau allweddol

	2018/19 Targed	Targed	Targed	Targed	Targed
Targedau fesul chwarter		Chwarter 1	Chwarter 2	Chwarter 3	Chwarter 4
Llawysgrifau – Adran Olygyddol	170	44	44	40	42
Teitlau – Adran Ddylunio	110	30	30	25	25
Adolygiadau ar gwales	200	55	55	50	40
Y Ganolfan Ddosbarthu	£4.05m gros / £2.7m net	£830,250 gros £553,500 net	£1,012,500 gros £675,000 net	£1,275,750 gros £850,500 net	£931,500 gros £621,000 net
Hybu'r defnydd o gwales. Targedau ar gyfer gwerthiant ar-lein i siopau a gwerthiant i gwsmeriaid unigol (sylwer y bydd rheoliadau'r RhDDC (GDPR) yn cael effaith tymor-byr i dymor-canolog ar ddefnyddwyr unigol)	Siopau: £2,981,420 Unigolion: £60,000 Defnyddwyr gwales: (-30%) 15,000	Siopau: £596,284 Unig.: £14,000 Defnyddwyr gwales: 12,000	Siopau: £715,541 Unig.: £14,000 Defnyddwyr gwales: 13,000	Siopau: £1,132,940 Unig.: £23,000 Defnyddwyr gwales: 14,000	Siopau: £536,655 Unig.: £9,000 Defnyddwyr gwales: 15,000
Cynllun Ymestyn	Achlysuron: 350 Gwerthiant: £150k	60 £25,000	80 £40,000	130 £55,000	80 £30,000

	2018/19 Targed	Targed	Targed	Targed
Targedau fesul tymor ysgol		Tymor 1	Tymor 2	Tymor 3
Cynllun Ysgolion	Nifer ymweliadau: 500 Gwerth archebion cynradd/uwchradd: £400,000	Ymweliadau: 150 Gwerth archebion cynradd/uwchradd: £140,000	Ymweliadau: 200 Gwerth archebion cynradd/uwchradd: £150,000	Ymweliadau: 150 Gwerth archebion cynradd/uwchradd: £110,000
Targedau blynyddol				
Lefel dyledwyr y Ganolfan	Dim mwy na 2%			

	2018/19 Targed
Grantiau Cyhoeddi (Cymraeg)	
<u>Llyfrau</u>	
Nifer y teitlau a gyhoeddir	215
Nifer y teitlau Cynllun A (Awduron) a gyhoeddir	20
Nifer y teitlau Cynllun A (Deunydd Gweledol) a gyhoeddir	12
Cyfartaledd gwerthiant	1,000 ar ôl 18 mis (ar gyfer llyfrau newydd y cyhoeddwr rhaglen a gyhoeddwyd yn 2016/17)
Nifer y swyddi golygyddol a gefnogir yn y tai cyhoeddi	10
<u>Cylchgronau</u>	
Cyfanswm y cylchgronau a gyhoeddir	15
Cyfartaledd gwerthiant cylchgronau	2,850 – Hamdden 2,220 – Newyddiaduraeth 1,650 – Plant 600 – Llenyddol a Diwylliannol
Cyhoeddi rheolaidd yn unol â'r amserlen	98%

	2018/19 Targed
Grantiau Cyhoeddi (Saesneg)	
<u>Llyfrau</u>	
Nifer y teitlau Grant Llenyddiaeth a gyhoeddir	75
Nifer teitlau blaendal awdur a gyhoeddir	15 (i'w cyhoeddi) (+ 10 wedi'u comisiynu)
Cyfartaledd gwerthiant teitlau blaendal awdur	2,500
Grantiau Marchnata	20
Cyfartaledd gwerthiant teitlau grant marchnata	2,500
<u>Cylchgronau</u>	
Nifer y cylchgronau diwylliannol (neu atodiadau) a gyhoeddir	5
Isafswm gwerthiant cylchgronau diwylliannol (print a digidol)	1,000 – cylchgronau cyffredinol 500 – cylchgronau llenyddol aml-ffocws 400 – cylchgronau llenyddol ffocws unigol
Cyhoeddi rheolaidd yn unol â'r amserlen	95%

CYLLIDEB 2018/19

INCWM	£
Llywodraeth Cymru	
Costau Uniongyrchol Adrannau Arbenigol	733,547
Costau cyffredinol a chostau rhedeg	367,353
Grant cyfalaf	30,000
Grantiau i'w dosbarthu	
Grantiau Cyhoeddi	2,548,100
Ffynonellau eraill o incwm i brosiectau:	
Llywodraeth Cymru: Adran Addysg a Sgiliau	
Cynlluniau Hyrwyddo Darllen	155,000
Incwm yr Adrannau	179,850
Y Ganolfan Ddosbarthu	<u>2,683,243</u>
CYFANSWM INCWM	<u>6,697,093</u>
GWARIANT	
Adrannau Arbenigol Costau Uniongyrchol, yn cynnwys y rhaglen weithgarwch graidd	1,068,397
Costau cyffredinol a chostau rhedeg	367,353
Costau cyfalaf	30,000
Grantiau i'w dosbarthu	
Grantiau Cyhoeddi	2,548,100
Y Ganolfan Ddosbarthu	2,716,904
Gwarged / (Diffyg) am y flwyddyn:	
Y Ganolfan Ddosbarthu	(33,661)
Y Cyngor	<u>-</u>
CYFANSWM GWARIANT	<u>6,697,093</u>

DADANSODDIAD O'R COSTAU 2018/19**GWARIANT**

	COSTAU		INCWM	NET	CYFANSWM
	CYFLOGAU	ERAILL			
Adrannau Arbenigol Costau Uniongyrchol					
Adran Olygyddol	102,657	12,100	(21,500)	(9,400)	93,257
Adran Ddylunio	99,701	8,000	(23,500)	(15,500)	84,201
Adran Gwerthu a Marchnata a Gwasanaethau Gwybodaeth	291,310	174,600	(104,000)	70,600	361,910
Adran Llyfrau Plant a Hyrwyddo Darllen	49,864	40,000	(20,850)	19,150	69,014
Cynllun hybu llyfrau mewn ysgolion	101,415	28,750	(5,000)	23,750	125,165
Cyfanswm Costau Uniongyrchol Adrannau Arbenigol	644,947	263,450	(174,850)	88,600	<u>733,547</u>
Gwasanaethau Atodol a Chostau Cyffredinol	231,103	136,250	–	136,250	367,353
Cyfanswm Costau Rhedeg	876,050	399,700	(174,850)	224,850	<u>1,100,900</u>
Costau Prosiectau					
Cynlluniau Hyrwyddo Darllen	24,500	135,500	(5,000)	130,500	155,000
Cyfanswm Costau Prosiectau	24,500	135,500	(5,000)	130,500	<u>155,000</u>
CYFANSWM COSTAU	900,550	535,200	(179,850)	355,350	<u>1,255,900</u>
Grant Cyfalaf					<u>30,000</u>
Grantiau i'w dosbarthu					
Grantiau Cyhoeddi					<u>2,548,100</u>

GRANTIAU CYHOEDDI 2018/2019**Grantiau i'w Dosbarthu 2018/2019**

£
2,548,100

Deunydd Cymraeg

	£
Cyhoeddwyr Rhaglen	389,000
Grantiau Cyhoeddi Unigol	75,000
Taliadau Perfformiad ayb	6,000
Cefnogi Swyddi a Hyfforddiant	190,000
Taliadau Awduron a Deunydd Gweledol	325,000
Marchnata	60,000
Llyfrwerthwyr	25,000
Deunydd Electronig	1,471
Gêmau	0
Cylchgronau	345,300
Cymorth i'r Wasg Gymraeg	200,000
Dysgwyr	40,000
Gweledigaeth Adroddiad Siwan Rosser	10,000
Ymchwil Farchnad	<u>10,000</u>
Cyfanswm Grantiau Cymraeg	1,676,771

Deunydd Saesneg

	£
Cylchgronau Refeniw	175,000
Llyfrau Refeniw	234,202
Grantiau Cyhoeddi Unigol	60,000
Grantiau Bach a Hyfforddiant	12,500
Blaendaliadau Awduron	54,000
Cefnogi Swyddi	79,175
Marchnata	44,452
Clasuron	<u>28,000</u>
Cyfanswm Grantiau Saesneg	687,329

Gweinyddu 184,000

Cyfanswm Grantiau 2,548,100